

### **Cyfreithiwr yr amddiffyniad**

Eich gwaith chi ydy amddiffyn tri pherchennog y chwarel. Maen nhw i gyd wedi dweud eu bod yn ddiuog ac rydych chi'n eu credu er gwaethaf y dystiolaeth yn eu herbyn. Rhaid i chi feddwl am eglurhad i'r holl dystiolaeth y bydd yr erlyniad yn ei chyflwyno yn erbyn y diffynyddion. Rhaid i chi gwestiynu tystion sy'n cael eu defnyddio gan yr erlyniad yn erbyn y diffynyddion. Rhaid i chi argyhoeddi'r rheithgor fod y diffynyddion yn berchenogion busnes ufudd i'r gyfraith a'u bod wedi cael eu cyhuddo o'r drosedd ar gam.

### **Cyfreithiwr yr erlyniad**

Eich gwaith chi ydy erlyn perchenogion y chwarel. Rydych yn credu eu bod wedi cyflawni'r drosedd hon ac nad ydy hi'n bosibl gwadu'r dystiolaeth yn eu herbyn. Rhaid i chi gyflwyno'r dystiolaeth hon yn bwyllog ac yn eglur i'r llys. Rhaid i'ch dadleuon fod yn rhesymegol. Byddwch yn cwestiynu tystion yn y llys er mwyn cyflwyno'ch achos. Ar ddiwedd eich dadleuon, bydd angen i chi ddod i gasgliad eglur, gan grynhoi'r holl bwyntiau allweddol.

### **Perchennog y chwarel 1 (Diffynnydd 1)**

Eich enw chi ydy John Jones. Rydych chi'n un o ddau bartner sydd wedi rhentu'r chwarel gan stad Cawdor. Rydych yn gweithio fel cyfrifydd yn y chwarel ac yn cwblhau'r holl waith papur. Roeddech wedi ceisio gwerthu'r chwarel yn ddiweddar, heb gysyniad stad Cawdor. Rydych yn cwblhau'r ffurflenni cais am gymorthdaliadau calch hyd yn oed os nad ydy'r ffermwr wedi arwyddo'r cais. Dyma'r cyhuddiadau yn eich erbyn: 'Cynllwynio gyda phersonau i dwyllo trwy lunio ceisiadau ffug am gymorthdaliadau', 'Cael arian trwy dwyll' a 'Ffugio dogfennau'. Rydych wedi pledio'n ddiuog.

### **Perchennog y chwarel 2 (Diffynnydd 2)**

Eich enw chi ydy William Rees. Rydych chi'n un o ddau bartner sydd wedi rhentu'r chwarel gan stad Cawdor. Rydych yn gadael y gwaith o redeg y chwarel yn nwylo'ch partner, John Jones. Chi hefyd ydy ysgrifennydd a rheolwr y gymdeithas amaethyddol leol sy'n gyfrifol am ddosbarthu'r taliadau cymhorthdal calch. Rydych chi'n delio gyda'r holl geisiadau am gymhorthdal o'r chwarel ac yn sicrhau eu bod yn cael eu talu. Dyma'r cyhuddiadau yn eich erbyn: 'Cynllwynio gyda phersonau i dwyllo trwy lunio ceisiadau ffug am gymorthdaliadau', 'Cael arian trwy dwyll' a 'Ffugio dogfennau'. Rydych wedi pledio'n ddiuog.

### **Contractwr cludo (Diffynnydd 3)**

Eich enw chi ydy Thomas Williams. Rydych chi'n contractwr cludo sy'n gweithio o chwareli'r Mynydd Du. Mae'ch tryciau'n ymweld â'r chwarel er mwyn casglu calch a'i ddsbarthu i ffermwyr lleol. Mae'ch tryciau'n cludo mwyafswm o 5 tunnell. Fodd bynnag, mae'r gwaith papur ar gyfer cyflenwi'r calch yn dangos dwbl yr hyn sy'n cael ei ddsbarthu. Mae cyflenwadau o lo hefyd yn cael eu dangos fel cyflenwadau o galch ar y gwaith papur. Rydych yn dweud bod cymaint o waith papur yn eich drysu a bod popeth wedi'i gymysgu. Dyma'r cyhuddiadau yn eich erbyn: 'Cynllwynio gyda phersonau i dwyllo trwy lunio ceisiadau ffug am gymorthdaliadau', 'Cael arian trwy dwyll' a 'Ffugio dogfennau'. Rydych wedi pledio'n ddiuog.

### **Chwarelwr 1**

Eich enw chi ydy James Llewellyn. Rydych chi'n gweithio ar odyd un yn y chwarel. Mae'r odyd yn cynhyrchu rhwng 10 a 12 tunnell y dydd. Mae odyd dau yn cynhyrchu 12 tunnell. Dyma'r unig ddwy odyd sy'n gweithio. Rydych yn mwynhau'ch gwaith ac yn falch o safon y calch rydych yn ei gynhyrchu. Yn ystod y dydd, rydych yn sylwi ar dryciau'n casglu calch i'w ddsbarthu i'r ffermydd. Mae tua chwe thryc yn pasio bob dydd.

### **Chwarelwr 2**

Eich enw chi ydy David Pugh. Rydych chi'n chwarelwr. Rydych yn gwybod bod y chwarel yn cynhyrchu tua 24 tunnell o galch ar ddiwrnod da. Fodd bynnag, rydych wedi clywed sôn yn y dafarn fod y perchenogion yn hawlio cymorthdaliadau am fwy na dwbl y swm hwn. Mae perchenogion y chwarel wedi gofyn i chi ddweud bod eich odyd yn cynhyrchu mwy o galch nag y mae hi. Ar y pryd, fe wnaethoch chi ddweud hynny er mwyn cadw'ch swydd, ond gan fod y chwareli wedi cau erbyn hyn, rydych yn barod i rannu'ch gwybodaeth â'r llys.

### **Chwarelwr 3**

Eich enw chi ydy George Owens. Rydych chi'n chwarelwr. Rydych chi'n ymwybodol o'r achos llys yn erbyn perchenogion y chwarel ond does gennych chi ddim barn ar y peth. Fe wnaethoch chi eich gorau yn eich gwaith a chawsoch eich talu am y gwaith hwnnw. Rydych chi'n flin eich bod wedi cael eich galw i roi tystiolaeth ac yn meddwl bod yr holl beth yn ffwdan i ddim byd. Rydych chi'n gweithio mewn chwarel arall erbyn hyn a ddim am beryglu'ch swydd trwy fod yn rhan o'r erledigaeth yma!

### **Gyrrwr tryciau (Tyst)**

Eich enw chi ydy Matthew Rees. Rydych chi'n gweithio i Thomas Williams sy'n cludo calch allan o chwareli'r Mynydd Du. Rydych chi'n dosbarthu calch yn rheolaidd i ffermydd yn Sir Gâr. Mae llwyth arferol o galch yn pwyso 4.5 i 5 tunnell ar y bont bwysu yn y chwareli. Mae pob derbynneb a nodyn trosglwyddo yn cael eu rhoi i chi er mwyn i chi gael llofnod y ffermwr i brofi ei fod wedi derbyn y calch. Fodd bynnag, yn anaml y mae'r dderbynneb a'r nodyn trosglwyddo yn nodi faint o galch sydd wedi'i gyflenwi. Eich gwaith chi ydy dosbarthu'r calch, felly dydych chi ddim yn poeni llawer am hyn.

### **Gwraig i chwarelwr**

Eich enw chi ydy Bertha Llewellyn. Mae'ch gŵr, James, yn gweithio yn y chwarel. Mae'n gweithio oriau hir mewn amgylchedd peryglus. Mae James yn dweud wrthy ch ei fod yn gweithio ar odyd 1 yn y chwarel. Mae'n hapus pan fydd yn llwyddo i gyrraedd ei darged o gynhyrchu 12 tunnell o galch y dydd gan fod hyn yn golygu ei fod yn cynhyrchu'r un faint ag odyd 2. Dydych chi ddim yn hapus iawn ei fod yn gweithio yno. Dydych chi ddim yn teimlo bod y perchennogion yn gwneud digon i sicrhau diogelwch y gweithwyr.

### **Gweithiwr swyddfa**

Eich enw chi ydy Sarah Lewis. Rydych chi'n gweithio yn y Gymdeithas Amaethyddol. Rydych chi'n prosesu taliadau cymhorthdal ar gyfer calch. Mae'ch rheolwr, William Rees, bob tro'n delio gyda gwaith papur Chwarel y Mynydd Du gyntaf ac yn dweud wrthy ch beth i'w dalu. Dydych chi ddim yn gweld gwaith papur y chwareli, ond rydych yn meddwl eu bod yn cynhyrchu llawer o galch yno gan fod y taliadau sy'n cael eu rhoi iddyn nhw yn reit fawr.

### **Plismon 1**

Eich enw chi ydy Lloyd Evans. Rydych chi'n blismon. Rydych chi wedi cyhuddo'r tri diffynnydd yn ffurfiol o'r canlynol: 'Cynllwynio gyda phersonau i dwyllo trwy lunio ceisiadau ffug am gymorthdaliadau', 'Cael arian trwy dwyll' a 'Ffugio dogfennau'. Pan aethoch chi i weld y chwareli, gwelsoch fod y safle'n anniogel. Ym mloc y swyddfeydd, daethoch o hyd i sawl nodyn trosglwyddo ar gyfer symiau mawr o galch a oedd yn cael eu dosbarthu'n lleol. Mae'r ysgrifen a'r llofnodion ar yr holl waith papur yn ymddangos yn debyg iawn. Rydych yn credu bod cymorthdaliadau mawr wedi'u hawlio a bod gwaith papur ffug wedi'i greu er mwyn hawlio'r cymorthdaliadau.

## **Plismon 2**

Eich enw chi ydy Rhys Griffiths. Rydych chi'n blismon sy'n gweithio ar yr achos o dwyll. Rydych chi wedi bod yn mynd trwy'r gwaith papur o'r chwarel ac yn cysylltu â'r ffermwyr ynglŷn â'r cyflenwadau o galch. Mae mwyafrif y ffermwyr yn dweud eu bod yn fodlon ar y calch, a dydyn nhw ddim yn gallu cofio faint o galch roedden nhw wedi'i dderbyn. Dydyn nhw ddim yn helpu rhyw lawer. Gan fod y diffynyddion wedi pledio'n ddieuog a'r ffermwyr yn gwrthod siarad, efallai mai dim ond y gwaith papur fydd gennyh i brofi bod y perchenogion yn euog.

## **Ffermwr 1**

Eich enw chi ydy Peter Hope. Rydych yn rhedeg fferm yng Ngwynfe. Dyma un o'r ffermydd mwyaf yn yr ardal. Rydych chi'n derbyn llwythi o galch yn aml. Mae'r llwythi'n cyrraedd ar dryc. Mae'r gyrrwr yn dweud wrthyh faint o galch sydd ar y tryc ac rydych yn llofnodi derbynneb i ddangos eich bod wedi derbyn y calch. Rydych chi'n ffrindiau da gyda John Jones, perchennog y chwarel. Rydych wedi cael sicrwydd na fyddwch yn cael eich erlyn yn yr achos hwn os byddwch yn dweud popeth am yr hyn a wyddoch yn y llys. Dydych chi ddim am fod yn y llys. Wedi'r cyfan, dim ond ychydig o nodion trosglwyddo wedi mynd yn gymysg ydy hyn i gyd!

## **Ffermwr 2**

Eich enw chi ydy David Price. Rydych yn ffermwr o Dairgwaith. Dydych chi ddim wedi cael cyflenwadau o galch o chwareli'r Mynydd Du. Fodd bynnag, mae'r heddlu'n dweud bod ffurflen gais am gymhorthdal wedi cael ei chyflwyno sy'n dangos bod 27 o dunelli wedi'u dosbarthu i'ch fferm. Rydych chi wedi cael sicrwydd na fyddwch yn cael eich erlyn yn yr achos os byddwch yn dweud popeth am yr hyn a wyddoch yn y llys. Dydych chi ddim am fod mewn helbul, felly rydych chi'n dweud y gwir.